Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn Comisiwn Tegwch Casnewydd i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Richard Sexty Rôl: Swyddog Datblygu Busnes Addysg

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan Dyddiad: 22/05/2019

Rwyf yn cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno ar gynnwys yr asesiad hwn

Ydw

Pan fyddwch yn cwblhau'r AEDCh hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

Strategaeth Hygyrchedd Ysgolion Cyngor Dinas Casnewydd, 2019-2024.

Mae paratoi Strategaeth Hygyrchedd Ysgolion yn ofyniad i'r Awdurdod Lleol dan Atodlen 10 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hefyd wedi ei nodi yn gam gweithredu o Amcan Cydraddoldeb 3: Gwella Mynediad i wasanaethau sy'n rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor.

Ysgrifennodd y comisiynydd plant i bob Awdurdod Lleol Cymru gan gynghori y dylid datblygu strategaethau hygyrchedd drwy gyfranogiad, eu cyhoeddi a'u hyrwyddo.

Mae strategaeth hygyrchedd ysgolion yn gosod rolau, cyfrifoldebau a nodau i'r awdurdod lleol i wella i ba raddau y gall pobl ifanc gyflawni eu potensial drwy brofiad addysg gynhwysol. Y bwriad yw seilio a chefnogi darpariaeth o ystod o fesurau i wella cyfle cyfartal i fanteisio ar addysg gynhwysol sy'n eu galluogi i ddatblygu yn unol â'u hanghenion ffisegol, cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r strategaeth hefyd yn gosod disgwyliadau ar ysgolion i gyflawni'r strategaeth hon, a sut y cânt eu cefnogi gan yr awdurdod lleol.

Nod y strategaeth yw sicrhau gwell mynediad i addysg ar draws 3 thema:

- Cynhwysiant ffisegol
- Darpariaeth o wybodaeth

- Cyfathrebu a thryloywder

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt

Datblygwyd y strategaeth ddrafft drwy ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mhencadlys GAVO ar 25 Mehefin 2018. Ymysg y rhai presennol roedd cynrychiolwyr gan

- GAVO
- Canolfan Plant Serennu /Sparkle
- Grwpiau Rhieni Casnewydd
- Grŵp Mynediad Casnewydd / Anabledd Cymru
- Gwasanaethau Ataliol CDC
- Therapyddion Galwedigaethol CDC
- Hawliau Plant CDC
- Cynhwysiant Addysg CDC
- Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Gwnaeth Canolfan Blant Serennu ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn y system addysg yn ddiweddar a lluniodd barn y bobl hyn ddatblygiad strategaeth hygyrchedd ddrafft. Roedd y strategaeth yn destun ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd gan geisio barn yr holl randdeiliaid rhwng mis Chwefror ac Ebrill 2019. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar wefan y cyngor drwy anfon neges hysbysu oedd yn cynnwys dolen i'r ymgynghoriad drwy e-bost at yr holl randdeiliaid a nodwyd. Soniwyd hefyd am yr ymgynghoriad ym mwletin Casnewydd yn Un a'i hyrwyddo drwy ffrwd Twitter y cyngor.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ac ati. Cynhwyswch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn.

Cafwyd gwybodaeth yn ystod y gweithdy rhanddeiliaid a nodwyd uchod o ran ystod yr anghenion ac am farn y rhieni a'r grwpiau cymorth.

Gan mai Ysgolion Casnewydd yw pwnc y strategaeth, y rhanddeiliaid yw plant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 oed a'u teuluoedd, gofalwyr a grwpiau cymorth. Ym mis Ionawr 2019, bu 25,976 o ddisgyblion wedi eu cofrestru yn ysgolion Casnewydd ac roedd 180 ohonynt yn mynd i ysgolion arbennig. (CYBLD 2019) Roedd 201 o ddisgyblion ysgol gynradd a 74 o ddisgyblion ysgol uwchradd ychwanegol wedi eu lleoli mewn dosbarthiadau Canolfan Adnodau Dysgu yn yr ysgolion prif ffrwd.

Yn genedlaethol, rydym yn gwybod bod 6% o boblogaeth dan 16 oed wedi'u cofrestru yn anabl, tra bod 10% o'r plant dan 15 oed ag anhwylderau iechyd meddwl wedi eu cofrestru. Felly, mae'r strategaeth yn ymwneud ag anghenion rhwng 6 a 10 y cant o boblogaeth y disgyblion – sydd o bosibl yn cyfateb i fwy na 2,500 o ddisgyblion.

Nodir bod oedolion ag anableddau yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o beidio â chael cymwysterau ffurfiol o'i gymharu ag oedolion nad ydynt yn anabl. Byd y strategaeth anabledd yn ceisio gwaredu'r rhwystrau i gyflawniad.

4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodweddion a ddiogelir	**Effaith:**			**Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:** **1. Hyrwyddo cyfle cyfartal** **2. Hyrwyddo cydlyniant** **3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid anghyfreithlon?**
	Gadarnhaol	**Negyddol**	**Y naill na'r llall**	
Oedran	☒	☐	☐	Nod y strategaeth yw gwella cyfle cyfartal i blant rhwng 3 a 19 oed fanteisio ar addysg ysgogol a chynhwysol. Bydd hyn hefyd yn effeithio yn gadarnhaol ar rieni, teuluoedd, gofalwyr a grwpiau cymorth.
Anabledd	☒	☐	☐	Bwriedir i'r strategaeth hon wella mynediad i wasanaethau addysg ar gyfer pobl ag anableddau i sicrhau nad ydynt dan anfantais neu wedi eu heithrio oherwydd ein hadeiladau, ein prosesau neu'n harferion.
Ailbennu rhywedd/trawsrywe ddol	☐	☐	☒	Mae'r strategaeth yn gosod y weledigaeth ar gyfer gwella cydraddoldeb o ran mynediad ar gyfer pob disgybl ac ymateb i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â'u hanghenion corfforol.
Priodas neu bartneriaeth sifil	☐	☐	☒	
Beichiogrwydd neu gyfnod mamolaeth	☐	☐	☒	

Nodweddion a ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/aflonyddu/erlid anghyfreithlon?
	Gadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r llall	
Hil	☐	☐	☒	☐ Affricanaidd ☐ Caribïaidd ☐ Unrhyw gefndir Du arall ……. **E Grŵp Ethnig arall** ☐ Arabaidd ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall ……
Crefydd neu Gred neu Heb Grefydd	☐	☐	☒	
Rhyw/ Hunaniaeth rhywedd	☐	☐	☒	Mae'r strategaeth yn gosod y weledigaeth ar gyfer gwella cydraddoldeb o ran mynediad i bob disgybl ac ymateb i anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal ag anghenion corfforol.
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☒	
Y Gymraeg	☒	☐	☐	Mae'r strategaeth yn cynnwys ein holl ysgolion a bydd yn sicrhau mynediad cyfartal i addysg gyfrwng Cymraeg

Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor datblygu cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir	*Mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo gweithrediad o bolisïau, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y byddant yn newid golwg a diwylliant ein hysgolion. Caiff newidiadau ffisegol a wneir eu cynllunio i gynnig gwelliannau parhaol ar gyfer disgyblion ag anghenion amrywiol, er mwyn gwella mynediad i'r ysgol dan sylw.*
Cydweithio i gyflawni amcanion	*Mae'r strategaeth yn gosod ymrwymiad i weithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar ansawdd a thegwch eu darpariaeth addysg. Bydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith mewn partneriaeth gyda'n hysgolion a therapyddion galwedigaethol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion a dyheadau'r disgybl a'i deulu/gofalwyr.*
Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn	*Y rhanddeiliaid yw plant a phobl ifanc Casnewydd, eu teuluoedd a gofalwyr. Mae rhieni, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr cymorth wedi eu cynnwys drwy'r gweithdy a gynhaliwyd yn GAVO ar 25 Mehefin. Gwnaeth Canolfan Blant Serennu ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn y system addysg yn ddiweddar a lluniodd barn y bobl hyn ddatblygiad strategaeth hygyrchedd ddrafft. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y strategaeth gan geisio barn yr holl randdeiliaid rhwng Chwefror ac Ebrill 2019.*
Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu	*Mae'r strategaeth yn hyrwyddo profiad addysg gynhwysol i bawb. Disgwylir wrth roi'r strategaeth ar waith a'i chyflawni y sicrheir bod darpariaeth o gymorth ar lefel addas sy'n effeithio ar lesiant emosiynol yn gadarnhaol. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo agweddau rhagweithiol a hirdymor ar wella mynediad i wasanaethau.*

Egwyddor datblygu cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill	*Mae'r strategaeth yn gosod y weledigaeth ar gyfer gwella mynediad i addysg yng Nghasnewydd. Bydd hyn yn galluogi disgyblion i gyrraedd eu potensial yn well ac mae'n gyfraniad cadarnhaol tuag at wireddu nodau llesiant cenedlaethol a lleol -* • *Cymru Lewyrchus – pobl sy'n gadael yr ysgol wedi eu paratoi'n well i gyfrannu at economi leol.* • *Cymru gydnerth - pobl sy'n fwy hyderus ac annibynnol* • *Cymru iachach – drwy gael mynediad i gwricwlwm addysg llawn* • *Cymru sy'n fwy cyfartal – drwy wella cydraddoldeb o ran mynediad* • *Cymru o gymunedau cydlynus – drwy gynhwysiant o Gyfnod Sylfaen i Safon Uwch* • *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg sy'n ffynnu – gan gofleidio amrywiaeth ac ymgysylltiad mewn ysgolion 3-19 oed* • *Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – cymryd cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer amgylchedd addysg a llesiant disgyblion, staff a theuluoedd* •

6. A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Na fydd, mae'r strategaeth yn cefnogi gwelliannau ar draws yr holl glystyrau addysg.

5 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal wrth nodi'r gwahaniaeth Nod y strategaeth yw gwella hygyrchedd er mwyn darparu system addysg gynhwysol drwy ddileu rhwystrau i ddysgu. Disgwylir y dylid gwneud pob ymdrech resymol i wireddu'r nod hwn, er ei bod yn glir y bydd anghenion penodol gan bob disgybl unigol ac

ni fydd agwedd gyffredinol ar hygyrchedd yn dileu y gofyniad i ymateb i anghenion unigolion penodol yn y dyfodol

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod yn rhaid i rieni, disgyblion, gofalwyr a gweithwyr cymorth gefnogi ymdrechion ein hysgolion a staff wrth roi'r strategaeth ar waith er mwyn iddi fod yn llwyddiannus a chael effaith sylweddol.

Paramedr 3 - Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn y berthynas â'r gymuned

Nod y strategaeth yw gwella hygyrchedd er mwyn darparu system addysg gynhwysol drwy ddileu rhwystrau i ddysgu. Disgwylir y dylid gwneud pob ymdrech resymol i wireddu'r nod hwn, er y nodwyd yn ystod gweithdy'r rhanddeiliaid bod angen i'r ymateb fod yn gymesur ac ni ddylai roi dan anfantais afresymol nac effeithio'n niweidiol ar brofiad y grŵp o gyfoedion, gan y bydd hyn yn wrthgynhyrchiol. Dylid adlewyrchu'r ystyriaeth hon yn y cyngor ac arweiniad a gynigir gan yr ALl a chan weithwyr proffesiynol eraill.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Mae'r strategaeth yn cydnabod ac yn cofleidio'r angen i ymgynghori gyda rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau a'r angen i gyfathrebu a chynnig gwybodaeth glir.

6 Gan ystyried yr holl asesiad, beth gellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol gan y strategaeth

7 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut a pham y caiff effaith y cynnig/polisi ei monitro a'i hadrodd?

Caiff cynnydd y Cyngor wrth roi'r strategaeth ar waith ei fonitro gan y grŵp llywio hygyrchedd ac adroddir i aelodau drwy Fwrdd Rhaglen Gyfalaf Gwasanaethau Pobl y Cyngor/ Grŵp Rheoli Asedau Strategol Cyfalaf.

8 Cynnwys Pobl

Sut caiff pobl eu hysbysu o'r newidiadau a'r AEDCh?

Mae'r strategaeth ddrafft wedi mynd drwy broses lawn o ymgynghori cyhoeddus. Ar ôl mabwysiadu, caiff ei chyhoeddi ar ein gwefan. Caiff rhanddeiliaid wybod am y cyhoeddiad drwy e-bost. Darperir adroddiad blynyddol yn nodi cynnydd a wneir yn erbyn y targedau a nodwyd yn y strategaeth.

9 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 A'R Gymraeg

Mae'r strategaeth hon yn ofynnol dan Atodlen 10 i Ddeddf Cydraddoldeb a bydd yn gwella cydraddoldeb y mynediad i addysg gyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y strategaeth yw gwneud gwelliannau i hygyrchedd ein hysgolion yn y tymor hir ac i addysgu a dysgu sy'n digwydd ynddynt. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â phob un o'r 5 egwyddor cynaliadwyedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn eu cefnogi.